## Tasg 4

# Cartref gwyrdd?

1. Ydy Tŷ NA yn wyrdd neu'n eco-gyfeillgar, tybed?

   Beth ydych chi'n feddwl? Rhowch resymau dros eich ateb.

2. Pa mor wyrdd yw'ch cartref chi?
   Llenwch y ffurflen hon. Gofynnwch i aelod o'r teulu os nad ydych chi'n siŵr.



**Arolwg o'ch cartref**

Ticiwch os oes gennych chi ...: **Manylion**

- ynysiad da yn y waliau a'r to ☐
- paneli solar ☐
- tyrbin gwynt yn yr ardd ☐
- gwydro dwbl neu wydro triphlyg ☐
- porfa / glaswellt ar y to ☐
- toiled sy'n compostio gwastraff ☐
- goleuadau LED ☐
- metr dŵr i gofnodi faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio ☐
- biniau ailgylchu ☐
- ailgylchu papur ☐
- ailgylchu tuniau ☐
- ailgylchu gwydr ☐
- ailgylchu plastig addas ☐
- ailgylchu bwyd ☐
- ailddefnyddio pethau – nodwch beth yn union yn y golofn **Manylion.** ☐
- gofalus gyda thrydan – nodwch sut yn y golofn **Manylion.** ☐
- gofalus gyda dŵr – nodwch sut yn y golofn **Manylion.** ☐

3. Gwnewch holiadur i weld pa mor wyrdd yw cartrefi aelodau’r dosbarth.

- Yn gyntaf, trafodwch pa fath o gwestiynau rydych chi’n mynd i’w gofyn.
- Yna, gwnewch yr holiadur a’i ddefnyddio yn y dosbarth.

Wrth ateb, gallwch chi ddefnyddio’r wybodaeth yn yr arolwg.

4. Gwnewch graffiau neu siartiau cylch i ddangos y canfyddiadau.

Ysgrifennwch ddarn i egluro’r canfyddiadau.

5. Gallai llawer o bobl wneud eu cartrefi’n fwy gwyrdd - yn fwy ecogyfeillgar. Sut?

Trafodwch hyn mewn grŵp a gwnewch nodiadau wrth i chi siarad.

Yna, paratowch ddarn sy’n rhoi cyngor i bobl ar sut i wneud eu cartrefi’n fwy gwyrdd, e.e. erthygl i’r papur bro, hysbyseb ar gyfer y teledu, cyflwyniad Pwerbwynt, darn ar gyfer gwefan ac ati.